APÊL CORWYNT CARIAD 2017

AMLINELLIAD O'R DREFN ARIANNOL
ar gyfer yr EGLWYSI LLEOL A'R HENADURIAETHAU

Annwyl gyfeillion,

Dim ond gair bach ynghylch y drefn o ran casglu a throsglwyddo'r arian a gesglir gennych tuag at Apêl Corwynt Cariad.

Yr ydym yn gobeithio y bydd pob aelod unigol yn anelu at gyfrannu **£14+** tuag at y gwaith. Mae'r symbol bach **+** yn mynd i wneud gwahaniaeth mawr i drigolion y Pilipinas.

Cofiwch pa mor bwysig yw llenwi'r **Datganiad Cymorth Rhodd**. Ychwanegir arian sylweddol wrth i'r aelodau neu gyfeillion sy'n talu treth wneud hyn. Gallwch ddyblygu mwy o'r ffurflenni eich hun neu gysylltu gyda Swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru yng Nghaerdydd.

CASGLU A THROSGLWYDDO'R ARIAN

1. **Yr eglwys leol**: bancio unrhyw arian a gesglir + unrhyw sieciau + casglu ffurflenni rhodd cymorth. Rhaid felly i unigolion wneud unrhyw sieciau yn daladwy i'r eglwys leol. Ond dylai'r Trysorydd nodi mai tuag at Apêl Corwynt Cariad y mae'r arian a chadw cyfrif o'r symiau.

2. **Yr eglwys leol**: wedi casglu swm o arian at yr apêl, dylai trysorydd yr eglwys leol anfon siec ar ran yr eglwys + unrhyw ffurflenni rhodd cymorth i **Drysorydd yr Henaduriaeth.** Peidiwch aros tan ddiwedd 2017 cyn trosglwyddo'r arian, os gwelwch yn dda.

3. **Trysorydd yr Henaduriaeth**: bancio sieciau'r eglwysi lleol+ anfon siec ar ran yr Henaduriaeth, wedi ei gwneud yn daladwy i Eglwys Bresbyteraidd Cymru + ffurflenni rhodd cymorth i Swyddfa EBC, Caerdydd.

Pwysig: Dim sieciau yn daladwy i Gymorth Cristnogol. Bydd hyn yn galluogi Eglwys Bresbyteraidd Cymru i hawlio arian rhodd cymorth a'i drosglwyddo i'r Apêl.

Llawer o ddiolch am eich cydweithrediad.

Catrin E. Roberts Cydlynydd yr Apêl

TYPHOON OF LOVE APPEAL 2017

Outline of the financial procedure

for the local churches and the Presbyteries

Dear friends,

Just a brief note about the procedure for collecting and the transfer of money donated towards the Typhoon of Love Appeal.

We hope that each member will aim to donate £14+ towards the work. The little + symbol will make a big difference to the people of the Philippines.

Please remember how important it is to complete the Gift Aid Declaration. A significant amount of additional money will be added to your donations if you are a tax payer. You may photocopy more of the forms yourself or contact the Presbyterian Church of Wales Office in Cardiff.

1. **The local church**: bank any monies collected and any cheques and any Gift Aid forms. All cheques should be made payable to the local church The Treasurer should note that the money is for the Typhoon of Love Appeal and keep a record of the sums donated.

2. **The local church:** having collected a sum of money towards the appeal, the Treasurer of the church should then send a cheque on behalf of the church and any Gift Aid forms to the **Presbytery Treasurer**. Please do not wait until the end of 2017 before transferring any donations.

3. **Presbytery Treasurer**: bank the local churches' cheques and send a cheque made payable to the Presbyterian Church of Wales, for the amount, on behalf of the Presbytery and send it with any completed Gift Aid forms to the PCW Office in Cardiff.

Important: No cheques should be made to Christian Aid. This will help the Presbyterian Church of Wales claim the Gift Aid and transfer it to the Appeal.

Thank you so much for your cooperation.

Catrin E. Roberts, Appeal Coordinator